**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Mawrth 5ed 2014 am 8.15 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ifor Edwards, Emlyn Williams, Ann Vaughan, Elen Edwards, Ian Griffith, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

22.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

22.2 COFNODION – cafwyd golwg ar gofnodion cyfarfod Ionawr 29ain 2014. Cynigiodd Ann Vaughan ac eiliodd Tecwyn Evans a phleidleisiwyd i gymeradwyo'r cofnodion.

22.3 BAGIAU TYWOD – roedd Gwynfor Davies, Sŵn y Nant yn barod i gadw bagiau tywod ger yr Afon Collen. Cynigiodd Ifor Edwards gysylltu â Gwynfor Davies ynglŷn a phrynu bagiau yn unig a'u llenwi ein hunain a chael blwch addas i'w cadw.

22.4 MATERION FFYRDD – nid oedd yr Adran Traffig yn gweld eu ffordd yn glir i osod arwyddion 30 ychwanegol yn Llangernyw ond roeddynt am basio ein pryderon ymlaen i'r Adran Gan Bwyll. PENDERFYNWYD i ofyn am bolyn er mwyn cael gosod arwydd 30 mya yn fflachio arno fel y ceir mewn pentrefi eraill. Hefyd teimlid bod arwyddion wedi eu gwneud gan blant, fel y gwelir mewn pentrefi megis Ganllwyd, yn drawiadol iawn a gofynnwyd a oes rhyw reolau ynglŷn a hyn.

22.5 MATERION CYNLLUNIO
22.5.1 CAIS RHIF 0/40329 Gwybodaeth ychwanegol ar gais i godi tyrbin sengl (gyda gallu cynhyrchu hyd at 500kw ac uchder blaen uchafswm o 67m) ynghyd a datblygiad ategol sy'n cynnwys offer switsio trydan cysylltiedig a chiosg newidydd, ceblau o dan y ddaear, trac mynediad ar y safle, mynediad i'r briffordd gyhoeddus a chraen ar arwyneb caled yn Cefn Groes Bach, Llansannan gan Mr Gwilym Parry. Nid oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw sylwadau ychwanegol a PHENDERFYNWYD i anfon hynny ymlaen a'n bod yn dal i wrthwynebu'r cais.

22.5.2 CAIS RHIF 0/40543 Dymchwel garej/sied rhychiog presennol a chodi garej ar wahân yn Wenallt, Pentre, Llangernyw gan Ms Susan Revill. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

22.6 CYFRANIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD i beidio cyfrannu at Theatr Bara Caws, Rhaglen Chwaraeon Gwledig yr Haf na Gwasanaeth Ysgolion Childline.

22.7 MYNWENT GWYTHERIN
22.7.1 COEDEN YWEN – oherwydd bod darn mawr o goeden wedi disgyn yn y storm ddiweddar PENDERFYNWYD gofyn i Mr Kevin Roberts, Llangernyw a fyddai'n hwylus iddo fynd i olwg y gwaith o'i chlirio. Hefyd roedd Ms Alison Goulbourne, Eglwys Gwenffrewi wedi mynegi diddordeb mewn cadw darn o'r ywen a threfnu i gerflunydd wneud darn o waith er cof am y Santes Gwenffrewi. PENDERFYNWYD ateb Ms Goulbourne i ddweud ein bod yn hapus i hyn ddigwydd ac y byddem yn cysylltu a hi pan fyddai y contractwr yn mynd i olwg y goeden.

22.7.2  GWAITH YN Y FYNWENT – derbyniwyd dau bris a PHENDERFYNWYD derbyn pris W & M Davies o £520 + TAW.  Gofynnir iddo gwblhau'r gwaith erbyn diwedd Mehefin 2014 a bod angen iddo gysylltu a Tecwyn Evans pan fydd yn barod i ddechrau'r gwaith.

22.8  CYFLOG CLERC – bydd angen i'r Clerc gysylltu â Diane Roberts i nodi  faint o oriau y mis y credai ei bod yn gweithio i'r Cyngor Cymuned.

22.9  GWEFAN WWW.BROCERNYW.ORG – derbyniwyd llythyr gan Mr Arfon Parry yn awgrymu os oeddem am wario'r arian gafwyd at y wefan y gellid ystyried prynu'r enw brocernywcyngorcymuned.gov.uk a'i wneud yn fwy swyddogol.  Byddai'n costio £131 am y ddwy flynedd gyntaf a thua £70 am bob dwy flynedd yn dilyn.

22.10  COFIO'R RHYFEL BYD CYNTAF – wedi trafodaeth fer ar y pwnc ac awgrym mai dathlu diwedd y rhyfel fyddai orau PENDERFYNWYD i'r aelodau feddwl mwy amdano a'i drafod eto.

22.11  TAITH Y PERERINION – cafwyd mwy o wybodaeth am y prosiect.  Roedd Emlyn Williams a'r Clerc yn cyfarfod Suryiajh Evans y diwrnod canlynol i drafod y bwriadau ar gyfer Gwytherin.  Derbyniwyd llythyr gan Ms Ann Lloyd Williams yn esbonio'r ffordd mae'r daith yn cael ei harwyddo gan wirfoddolwyr twristiaeth hanesyddol.

22.12  CLWB IEUENCTID BRO CERNYW – derbyniwyd gohebiaeth gan Mr Gwyn Williams, Dolwen Bach yn cadarnhau bod £31.76 wedi ei drosglwyddo o gyfrif y Clwb Ieuenctid i gyfrif y Cyngor Cymuned a bod cyfrif y clwb wedi ei gau.

22.13  UN LLAIS CYMRU – derbyniwyd cais am gynigion i'r Gynhadledd i fod i mewn erbyn 17 Ebrill.  PENDERFYNWYD i ymaelodi ag Un Llais am flwyddyn arall a'r gost fyddai £128.  Cafwyd gwybodaeth am gyrsiau Un Llais yn yr ardal ac anogaeth i'w mynychu.

22.14  PROTOCOL DRAFFT AR GYFER DATGANOLI GWASANAETHAU CONWY – oherwydd bod y ddogfen yn uniaith Saesneg  PENDERFYNWYD i ofyn am gyfieithiad fel bod y Cyngor Cymuned yn gallu ei thrafod.

22.15  RESOURCES FOR CHANGE – derbyniwyd cais gan Ms Cerys Thomas am gael dod i gyfarfod o'r Cyngor i drafod eu gwasanaeth o gynorthwyo grwpiau bychain i wireddu eu potensial.  PENDERFYNWYD ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf a gwahodd grwpiau lleol oedd â diddordeb.

22.16  CYLCH MEITHRIN LLANGERNYW – derbyniwyd cais i ni ethol Person Cyfrifol/Cofrestredig ar gyfer y Cylch o blith aelodau'r Cyngor.  Teimlid bod hyn yn swnio'n gyfrifoldeb mawr a PHENDERFYNWYD ymateb i ddweud hyn a chyfeirio'r grŵp at Cerys Thomas Resources for Change.

22.17  GOHEBIAETH – PENDERFYNWYD anfon cyswllt gwe rhai eitemau ar yr Agenda i'r aelodau.

22.18  MATERION LLEOL
22.18.1  Roedd teimlad anniddig bod y Cyngor Sir  heb fod yn sgubo'r ffyrdd er i ni wneud cais aml i waith.

22.18.2 Roedd problem car yn parcio ger Minffordd Pandy Tudur ac yn rhwystro cerbydau mawr rhag mynd dros y bont yn hwylus.
22.18.3 Waen Cwm Canol – dal heb ei sgubo.
22.18.4 Ffos dal wedi cau ger Nant Mawr, Llangernyw.
22.18.5 Angen holi am sgipiau cymunedol at fis Mai.
22.18.6 Posteri baw cŵn – y Clerc i gysylltu a PC Dan Owen eto.
22.18.7 Angen peintio arhosfan bws yn y llan. Angen gofyn pwy sy'n gyfrifol amdano.
22.18.8 Draen ger Pen Cefn wedi tagu ac arogl carthffosiaeth yno.
22.18.9 Ochr y ffordd ger Tyn Pistyll wedi gwisgo yn ddrwg.
22.18.10 Pasiwyd i gael cerdyn penblwydd i'r cyn Gynghorydd John Hughes ar ei benblwydd arbennig.

22.19 BILIAU
Un Llais Cymru – Ymaelodi £128

Daeth y cyfarfod i ben am 10.10 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion Arwyddwyd...E H Edwards............. Dyddiad....26/3/14..............*

Community Council Meeting was held on Wednesday 5 March 2014 at 8.15 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies : Gwydion Jones

Present : Gwyn Williams (Chair ) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ifor Edwards , Emlyn Williams , Ann Vaughan , Elen Edwards , Ian Griffith , Cllr Dilwyn O Roberts & Clerk .

22.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

22.2 MINUTES - minutes of the January 29th 2014 were viewed. Ann Vaughan proposed Tecwyn Evans seconded and members voted to approve the minutes .

22.3 SAND BAGS - Gwynfor Davies, Swn y Nant was willing to keep the sandbags near the River Collen . Ifor Edwards offered to contact Gwynfor Davies and purchase bags and fill them ourselves and have a suitable storage box .

22.4 HIGHWAY ISSUES - Traffic Department did not see their way clear to install additional 30 mph signs in Llangernyw but they wanted to pass on our concerns to the Arrive Alive Dept . RESOLVED to ask for a pole to be installed to take flashing 30mph sign on it as there is in other villages . It was also felt that the signs made by children, as seen in villages such as Ganllwyd , were very impressive and asked whether there are rules about this.

22.5 PLANNING
22.5.1 APPLICATION NUMBER 0 / 40329 Additional information on request to raise a single turbine ( with production capacity up to 500kW and a maximum tip height of 67m ) together with ancillary development which includes associated electrical switchgear and transformer kiosk , cables under the ground , on-site access track , crane access to the public highway and on a hard surface in Cefn Groes Bach, Llansannan by Mr Gwilym Parry . Community Council did not have any additional comments and RESOLVED to send to report that we continue to oppose the application.

22.5.2 APPLICATION NUMBER 0 / 40543 Demolition of garage / corrugated shed and erection of detached garage at Wenallt, Pentre, Llangernyw by Ms. Susan Revill . RESOLVED to support the application .

22.6 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED not to contribute to Theatr Bara Caws, Rural Sports Summer Programme or Childline .

22.7 GWYTHERIN CEMETERY
22.7.1 YEW TREE - a large piece of tree fell in the storm recently RESOLVED to ask Mr Kevin Roberts , Llangernyw if it would be convenient for him to go to see the work and clear it . Also Ms Alison Goulbourne , Winifred Church has expressed an interest in preserving a piece of yew and organize a sculptor to do a piece of work in memory of St. Winifred . RESOLVED to let Ms Goulbourne know that we are happy for this to happen and we would contact her when the contractor is going to look at the tree.

22.7.2 WORK IN THE CEMETERY - received two prices and RESOLVED to accept W & M Davies price of £ 520 + VAT . He is asked to complete the work by the end of June 2014 and that he needs to contact Tecwyn Evans when ready to start work .

22.8 CLERK SALARY - Clerk will need to contact Diane Roberts to indicate how many hours per month that she believed she worked for the Community Council .

22.9 WEBSITE WWW.BROCERNYW.ORG - received a letter from Mr Arfon Parry suggesting that if we were going to spend the money received for the website we could consider buying the name brocernywcyngorcymuned.gov.uk and make it more official . It would cost £131 for the first two years and about £70 for every two years following .

22:10 REMEMBERING THE FIRST WORLD WAR - had a brief discussion on the topic and the suggestion that celebrating the end of the war would be best RESOLVED members to think more about the matter and discuss it again .

22.11 PILGRIM’S TRAIL - there was more information about the project . Emlyn Williams and Clerk to meet Suryiajh Evans the following day to discuss the proposals for Gwytherin . A letter from Ms. Ann Lloyd Williams explained how the trail will be signed by historical tourism volunteers.

22:12 BRO CERNYW YOUTH CLUB - received correspondence from Mr Gwyn Williams , Dolwen Bach confirming that £ 31.76 had been transferred from the Youth Club account to the Community Council and that the club's account had been closed .

22:13 ONE VOICE WALES - received a request for proposals to the Conference due in by 17 April .RESOLVED to join One Voice for another year and the cost would be £ 128 . Information on One Voice Wales courses in the area and members encouraged to attend.

22:14 DRAFT PROTOCOL FOR DELEGATION OR DEVOLVEMENT OF SERVICES FROM CCBC TO COMMUNITY COUNCILS - because the document was in English only RESOLVED to request a Welsh version for the Community Council to discuss.

22:15 RESOURCES FOR CHANGE - Ms Cerys Thomas wished to attend a Council meeting to discuss their service to assist small groups to realize their potential . RESOLVED Cerys Thomas to be invited to the next meeting and invite local groups who were interested .

22.16 CYLCH MEITHRIN LLANGERNYW - received a request to elect Responsible/Registered Person for the Cylch from among the Council members . It was felt that this sounds a great responsibility and RESOLVED to reply and direct the group to Cerys Thomas Resources for Change .

22:17 CORRESPONDENCE – RESOLVED to send a web link of some items on the Agenda to members .

22:18 LOCAL ISSUES
22.18.1Uneasy feeling was that the County Council was not sweeping roads although requests were made by us.
22.18.2 Problem of car parked near Minffordd, Pandy Tudur which prevented large vehicles from driving over the bridge.
22.18.3 Waen Cwm Canol - has not yet been swept .
22.18.4 Ditch still closed near Nant Mawr , Llangernyw .
22.18.5 Need to inquire about community skips in May.
22.18.6 Dog Fouling Posters - the Clerk to contact PCSO Dan Owen again .
22.18.7 Llangernyw bus stop needed painting. Need to ask Conwy Council who is responsible for it .
22.18.8 Drain near Pen Cefn blocked and the smell of sewage there.
22.18.9 Roadside near Tyn Pistyll needed attention badly
22:18:10 The Clerk to get a birthday card to former Councillor John Hughes on his special birthday.

22.19 BILLS
One Voice Wales - Membership £ 128

The meeting ended at 10.10 pm.

Minutes were approved Signed ... EH Edwards .............. Date....26/3/14 ...............